# <u>CYNGOR CYMUNED BUAN</u>

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Fercher, 9 Chwefror, 2022
drwy gyfrwng system ZOOM

Presennol:

Cynghorwyr:

Hughie Williams – Cadeirydd
Dafydd Ll Williams
Einir Lewis
Wyn Davies
Philip Roberts
Nia Jones
Gareth Roberts
Anwen Davies – Cynghorydd Sirol
Nerys Williams - Clerc

## 1. Ymddiheuriadau –

Cafwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Tesni W. Jones.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd cofnodion 14.01.2022 yn gywir gan y Cynghorydd Dafydd Llewelyn Williams ac eilwyd gan y Cynghorydd Einir Lewis.

## 3. Ymatebion i ohebiaeth

*Ffyrdd* – Yn dilyn o gofnodion mis diwethaf adroddodd y Cynghorydd Anwen Davies ei bod wedi cael gair gyda Titus Hughes a Caradog Williams o Cyngor Gwynedd ynghylch â mwd a baw sydd ar y lonydd, ond nid oeddynt hwy yn gweld bod problem yn bodoli.

Adroddwyd hefyd bod gwaith wedi cael ei wneud ar Lôn Newydd, Nanhoron ac ei bod wedi altro.

*Clwb Ffermwyr Ieuainc Godre'r Eifl* - Derbyniwd llythyr gan Gwenno Jones, Trysorydd, Clwb Ffermwyr Ieuainc Godre'r Eifl yn gofyn am gyfraniad ariannol.

**Penderfynwyd**:- Cyfrannu £250.00

## 4. Materion Ariannol

Derbynwid cysoniad y banc am y cyfnod 4 Ionawr, 2022 i 3 Chwefror, 2022 yn gywir yn y swm o £752.78.

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Clwb Ffermwyr Ieuainc Godre'r Eifl | £250.00 | Siec Rhif 200655 |
| Nerys Williams | £111.99 | Siec Rhif 200656 |
| Cyllid a Thollau EM | £27.80 | Siec Rhif 200657 |

## 5. Materion Cynllunio

**Cais Rhif C22/0016/33/LL –** Cae ger Bryn Tirion, Boduan, Pwllheli, LL53 6DR – Sied amaethyddol ar gyfer porthiant a pheiriannau yn unig.

- Dim gwrthwynebiad.

## 6. Datgan Diddordeb

Doedd neb yn datgan diddordeb.

## 7. Materion er Gwybodaeth

Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.

Derbyniwyd infois newydd gan Mr. Bleddyn Evans, Trydanwr am y swm o £235.00 fel y'i cytunwyd nid £240.00.

## 8. Unrhyw fater arall

### Defibrillators

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod â Tomos Hughes. Erbyn hyn mae'r 4 diffibrilwyr yn mhlwy Cyngor Cymuned Buan – 1 yn Talybont, Rhydyclafdy, 1 yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy, 1 ym Moduan ac un ger Capel Ceidio, ac adroddodd fod y 4 yn awr wedi eu cofrestru. Bydd angen checio'r batris bob tri mis, a chytunodd y Cynghorydd Hughie Williams i wneud hyn ac fe addodd Dafydd Llewelyn Williams i'w helpu.

Adroddodd y Cynghorydd Anwen Davies bod Mr. D.G. Jones, Morfa Nefyn wedi bod yn peintio'r gadair ger Hen Ysgol Boduan, ac wedi bod yn tacluso o gwmpas y safle. Gofynnodd i'r Clerc anfon cerdyn o ddiolch iddo am ei waith.

Soniwyd y buasai yn ddoeth o beth i feddwl am ofyn i Arnott Jones a fuasai yn fodlon torri'r gwellt ym Moduan, Cae Rhydyclafdy a Llanfihangel am yr un pris â'r llynedd. Dywedodd y Cadeirydd y buasai ef yn cael gair â Mr. Jones i holi am hyn.

I gloi gofynnodd y Cadeirydd os fuasai pawb yn cytuno i gyfarfod wyneb yn wyneb y mis nesaf yn Twnti. Cytunwyd i wneud hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 07.55 y.h.

O.N. Yn anffodus ni drafodwyd **Cais Cynllunio – Rhif Cais C22/00/18/33/LL – Bodgadle, Rhydyclafdy, Pwllheli, LL53 8SB** yn y cyfarfod, ond cysylltodd y Cynghorydd Hughie Williams â phawb wedi hynny a doedd dim gwrthwynebiad i'r cais.